Hanes lesu ar gân

Dyfalbarhad / gwneud ein gorau

Handel: 1685-1759

Fyddwch chi'n hoffi gwrando ar gerddoriaeth? Pa fath o gerddoriaeth fyddwch chi'n hoffi? Mae'r stori hon yn sôn am un o gerddorion mwya'r byd.

Meddyg a deintydd oedd tad George Handel. Byddai bob cyfle yn sôn am ei fab. "Rwyf am i'r mab fod yn enwog ryw ddydd. Mae'n rhaid iddo gael digonedd o lyfrau o'i gwmpas er mwyn iddo ddarllen ac astudio. Rwy'n gobeithio y daw yn gyfreithiwr ar ôl iddo dyfu i fyny."

Un diwrnod, pan ddaeth tad George i'r tŷ, clywodd sŵn mawr yn dod o'r ystafell yn y llofft. Aeth i fyny a gwaeddodd yn y drws, "Beth ydi'r sŵn aflafar yma?" Eisteddai George a phob math o deganau cerddorol o'i gwmpas, trwmped, drwm a ffliwt.

"Dim mwy o'r sŵn yma," meddai ei dad.

"Ond Dad, rydw i'n hoffi cerddoriaeth."

"Gwranda," meddai'r tad, "dim ond pobl dlawd ar y stryd sy'n chwarae cerddoriaeth. Rwyf am i ti fod yn gyfreithiwr a dim arall. Byddi'n mynd i'r ysgol reit fuan a bydd diwedd ar y nonsens yma." Gafaelodd yn y teganau a'u taflu i'r tân.

Ymlwybrai George i'r ysgol bob dydd. Bachgen trist iawn ydoedd. Ond ar y Sul roedd yn fachgen hapus. Byddai'n arfer mynd i'r eglwys gyda'i fodryb Anna. Gwrandawai ar yr organ fawr yn cael ei chwarae.

"Buaswn wrth fy modd yn eistedd i fyny acw yn chwarae'r organ fawr," meddai wrtho'i hun. Un diwrnod gofynnodd ei fam iddo, "George, pam rwyt ti mor drist?" Dechreuodd George feichio crio, "Mam, fedra i ddim byw heb gerddoriaeth!"

Pan oedd George yn 7 oed rhedodd ar ôl y goets oedd yn cario ei dad i weld un o'r bobl fawr. Daliai George i redeg. Yn y diwedd bu'n rhaid stopio'r goets a chodi'r bachgen. Ar ôl cyrraedd y palas, aeth George am dro o gwmpas yr ystafelloedd. Daeth ar draws yr ystafell lle'r oedd yr organ fawr. Dechreuodd chwarae'r offeryn.

"Pwy sydd yn chwarae'r organ?" gofynnodd perchennog y palas.

"Fy mab, George," meddai'r tad braidd yn swil.

"Mae'n organydd wrth reddf," meddai'r perchennog. "Cofiwch roi gwersi iddo. Mi fydd yn organydd mawr ryw ddydd."

Handel: 1685–1759

Ildiodd y tad. O hynny ymlaen doedd dim diwedd ar allu George fel cerddor. Ysgrifennodd operâu oedd yn cael eu perfformio ar hyd a lled y byd. Dechreuodd ysgrifennu math newydd o gerddoriaeth, sef oratorio. Ysgrifennodd hanesion o'r Beibl ar gân. Er pan oedd yn blentyn, roedd wedi meddwl am ysgrifennu hanes Iesu ar gân. Byddai'r stori yn sôn am y ffordd roedd y proffwydi wedi dweud y byddai Iesu yn cael ei eni. Yna hanes bywyd Iesu a'r ffordd y bu farw ar y groes. Yna ei hanes yn codi o'r bedd. Roedd hwn yn gyfnod cyffrous iawn iddo.

Am bron i fis cyfan bu'n gweithio ar yr oratorio. Byddai gwas yn mynd â bwyd i'w ystafell. Ond yn aml iawn byddai'r bwyd wedi ei adael heb ei fwyta. Roedd y gannwyll yn llosgi'n isel iawn bob dydd. Un bore pan aeth y gwas â brecwast iddo gwaeddodd Handel,

"Mae'r gwaith wedi'i orffen!" Dechreuodd y dagrau redeg i lawr ei ruddiau. "Clywais angylion Duw yn canu'r nodau," meddai wrth ei was. Roedd *Y Meseia*, sef yr oratorio, wedi ei chwblhau.

Bu Handel farw yn ŵr dall ac wedi'i barlysu. Ond mae'n byw am byth yn ei waith ac yn arbennig yn yr oratorio, *Y Meseia*.

"Moliannaf enw Duw ar gân,
mawrygaf ef â diolchgarwch."
Salm 69:30

Diolch i Ti, O Dduw,
am gerddorion a chantorion
ar hyd yr oesoedd
sydd wedi canu cân
i Ti.
Amen.

Oes gennym ni hawl i fynd yn groes i'r hyn mae pobl ifanc eisiau ei wneud gyda'u bywyd?
Trafodwch o safbwynt:

(a)Rhieni
(b)Pobl ifanc